2. Cyrff Llywodraethu: Eu Pwerau, Eu Dyletswyddau a'u Cysylltiadau ag Eraill

Mae'r bennod hon yn cyflwyno pwerau a dyletswyddau sylfaenol cyrff llywodraethu ac yn cynnig cyfarwyddyd ar sut y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni, fel a ganlyn:

- statws corfforaethol ac atebolrwydd llywodraethwyr unigol;
- Ymddygiad a dyletswyddau llywodraethwyr; a
- chysylltiadau â rhanddeiliaid.

Manylir ar gyfrifoldebau deddfwriaethol yn y penodau diweddarach; cyfeirir at hyn lle y bo'n berthnasol.

Statws Corfforaethol ac Atebolrwydd Llywodraethwyr Unigol

1. Mae cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yn gyrff corfforaethol. Mae gan gorff corfforaethol hunaniaeth gyfreithiol ar wahân sy'n wahanol i hunaniaeth ei aelodau.

VA VC F

2. Mae corff llywodraethu pob ysgol sefydledig, ysgol arbennig sefydledig, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gorff corfforaethol â statws elusennol esempt. Gall cyrff llywodraethu o'r fath gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i gael gwybod sut y gall statws elusennol eu helpu i wneud y gorau o roddion a mathau eraill o gymorth gan y gymuned fusnes, rhieni ac eraill. Gellir cysylltu â'r Comisiwn Elusennau yn Charity Commission Direct, PO Box 1227, Liverpool L69 3UG, rhif ffacs: 0151 703 1555. Gallwch hefyd ffonio naill ai Ymholiadau Cyffredinol - 0845 3000 218, gwasanaeth Ffôn Testun i rai â namau ar y clyw a'r lleferydd - 0845 3000 219, neu Ymholiadau Gwasanaethau Ar-lein - 0845 3000 197.

3. Gan mai cyrff corfforaethol yw cyrff llywodraethu, diogelir llywodraethwyr unigol yn gyffredinol rhag atebolrwydd personol o ganlyniad i benderfyniadau a gweithredoedd y corff llywodraethu. Cyn belled â'u bod yn ymddwyn mewn modd gonest, rhesymol a didwyll, y corff llywodraethu fydd yn atebol hyd yn oed os yw wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau, yn hytrach nag aelodau unigol.

4. Nid oes unrhyw bŵer na hawl gan lywodraethwyr unigol, grwpiau o lywodraethwyr na phwyllgorau i weithredu ar ran y corff llywodraethu, oni bai bod y corff llywodraethu wedi cytuno, mewn cyfarfod, i ddirprwyo swyddogaeth benodol i'r unigolyn, y grŵp o lywodraethwyr neu'r pwyllgor hwnnw; neu lle mae'r rheoliadau'n nodi y dylid cyflawni'r swyddogaeth honno mewn modd arbennig.

5. Mae'r corff llywodraethu yn parhau i fod yn gyfreithiol atebol am bob gweithred a wneir yn ei enw gan unigolion neu bwyllgorau y mae wedi dirprwyo swyddogaethau iddynt. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau felly fod

pob penderfyniad i ddirprwyo cyfrifoldebau penodol yn glir a bod y cofnodion yn nodi'n gywir a chyflawn y darpariaethau a hyd a lled yr hyn a ddirprwywyd.

6. Rhaid yswirio'r corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd. Bydd yr ALl yn talu am yswiriant o'r fath o gronfa ganolog neu gall gynnwys y gost yng nghyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Dylai'r corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd ystyried ei anghenion yswiriant. Dylai'r ALl sy'n cynnal yr ysgol fod â gwybodaeth ynglŷn â lefel yr yswiriant y mae'n ei ddarparu. Am ragor o wybodaeth gweler Pennod 8 o'r Canllaw hwn, 'Rheoli'r Gyllideb'.

7. Ni chaiff llywodraethwyr eu hanghymwyso o dan y rheolau arferol ar fuddiannau ariannol fel y'u disgrifir yn y rheoliadau (Atodlen 7 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005) rhag cymryd rhan mewn cyfarfodydd ynglŷn â threfnu yswiriant indemniad personol. Gallant ystyried a phleidleisio ar gynigion i'r corff llywodraethu drefnu yswiriant i ddiogelu aelodau yn erbyn atebolrwydd a allai fod yn berthnasol iddynt, sy'n codi yn sgil eu gwaith.

8. Fel corff corfforaethol, mae'n bosibl y bydd y corff llywodraethu yn defnyddio sêl er mwyn dilysu dogfennau, fel gweithredoedd. Pan ddefnyddir y sêl, dylai'r cadeirydd a llywodraethwr arall a awdurdodwyd gan y corff llywodraethu arwyddo'r ddogfen er mwyn dilysu'r sêl. Gall llyfrfeydd cyfreithiol roi cyngor ar y mathau sydd ar gael a'u pris.

Ymddygiad a Dyletswyddau Llywodraethwyr

9. Dylai cyrff llywodraethu a llywodraethwyr unigol ymddwyn yn onest a chywir bob amser a bod yn barod i egluro eu gweithredoedd a'u penderfyniadau i'r staff, y disgyblion, y rhieni neu unrhyw un â diddordeb cyfreithlon yn yr ysgol. Rhaid i lywodraethwyr gofio y dylid sicrhau bod cofnodion a phapurau cyfarfodydd corff llywodraethu ar gael i unrhyw un eu gweld yn yr ysgol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyfarfod. Am wybodaeth bellach gweler Pennod 4, Gweithdrefnau a Chyfarfodydd Cyrff Llywodraethu.

10. Yn gyffredinol, dylai'r corff llywodraethu gyflawni ei waith gyda'r nod o fod â **swyddogaeth strategol** eang yn y gwaith o redeg yr ysgol.

11. Mae swyddogaeth strategol yn golygu bod y corff llywodraethu yn penderfynu'r hyn y mae am i'r ysgol ei gyflawni ac yn pennu'r fframwaith strategol er mwyn cyrraedd y nod. Dylai bennu'r fframwaith strategol drwy:

- osod nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol;
- mabwysiadu polisïau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- pennu targedau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny; ac
- adolygu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion.

12. Yn gyffredinol, bydd y Cynllun Datblygu Ysgol, y Cynllun Gwella Ysgol a'r cynllun gweithredu a lunnir o ganlyniad i arolygiad Estyn, (yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ynghyd â pholisïau cytunedig y corff llywodraethu, yn sail i'r fframwaith strategol. Mewn ysgolion ag ymddiriedolwyr, dylai'r corff llywodraethu hefyd gydymffurfio ag unrhyw ddogfen ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

13. Bydd rhaid i gyrff llywodraethu fonitro cynnydd ac adolygu fframwaith yr ysgol yn rheolaidd o ganlyniad i'r cynnydd hwnnw. Nid ydynt yn gyfrifol am gasglu na monitro'r data, ond dylent gytuno ar drefniadau priodol ac adrodd yn ôl i'r pennaeth.

14. Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefnidiaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol; ac am gynghori ar fframwaith statudol y corff llywodraethu a'i roi ar waith. Yn benodol, rhaid i'r pennaeth lunio nodau ac amcanion, polisïau a thargedau i'r corff llywodraethu ystyried eu mabwysiadu; ac adrodd i'r corff llywodraethu ynglŷn â chynnydd o leiaf unwaith bob blwyddyn ysgol.

15. Nodir amodau cyflogaeth penaethiaid yn nogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, sy'n cael ei diweddaru bob blwyddyn. Mae gan y ddogfen hon rym cyfreithiol. Gweler Pennod 10 o'r canllaw hwn o dan y teitl Staffio.

16. Gall cyrff llywodraethu benderfynu dirprwyo rhai o'u swyddogaethau i banel o lywodraethwyr, llywodraethwyr unigol neu'r pennaeth. Wrth wneud hyn rhaid iddynt ystyried y rheoliadau (paragraffau 50 - 52 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005). Rhaid iddynt hefyd ystyried eu swyddogaeth, sy'n un strategol yn bennaf, a chyfrifoldeb y pennaeth dros drefnidiaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol.

17. Os bydd y corff llywodraethu yn cytuno i ddirprwyo unrhyw swyddogaeth, dylai roi cyfarwyddyd ar sut i gyflawni'r swyddogaeth honno.

18. Bydd y daflen cyfrifoldebau yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/2000 Canllawiau ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 (ar ddiwedd y bennod hon) o gymorth wrth wneud penderfyniadau ar y materion y bydd y corff llywodraethu o bosibl am eu dirprwyo.

19. Rhaid i'r corff llywodraethu ddirprwyo pob gwrandawiad disgyblu/diswyddo staff, apêl disgyblu/diswyddo staff a phob gwrandawiad disgyblu a gwahardd disgyblion (a phob achos o dderbyn os mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn) i bwyllgor neu bwyllgorau. Am fanylion pellach gweler Pennod 4 o dan y teitl Gweithdrefnau a Chyfarfodydd Cyrff Llywodraethu a Phennod 10 o dan y teitl Staffio.

20. Mae dyletswyddau a phwerau cyfreithiol amrywiol yn perthyn i gyrff llywodraethu. Ceir eglurhad manylach ym mhenodau diweddarach y Canllaw hwn, ond mewn ysgol a gynhelir â chyllideb ddirprwyedig, bydd y dyletswyddau a phwerau hyn hefyd yn cynnwys:

- cynnal yr ysgol mewn ffordd sy'n hyrwyddo cyflawniad addysgol ac ymddygiad o safon uchel;
- pennu targedau ysgol priodol o ran cyflawniad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4;
- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal yr ysgol - yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys llunio polisïau a sut y dylai'r ysgol redeg, o safbwynt strategol eang;
- rheoli cyllideb yr ysgol, gan gynnwys pennu nifer y staff a gwneud penderfyniadau ar gyflogau'r staff yn unol â'r Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon;
- sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn gytbwys a bod ei sylfaen yn eang, ac yn arbennig y dysgir y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol;
- cyflwyno adroddiad i'r rhieni bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau arholiadau;
- penodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth (gyda chyngor yr ALl, a'r Esgobaeth yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir) a staff eraill a rheoli ymddygiad a disgyblaeth staff; a
- llunio cynllun gweithredu ar ôl arolygiad Estyn.

Y Cwricwlwm

21. Mae'r corff llywodraethu'n rhannu cyfrifoldeb gyda'r pennaeth a'r ALl dros sicrhau y cyflawnir y Cwricwlwm Cenedlaethol ac y cynhelir yr asesiadau priodol. Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys sicrhau y rhoddir digon o amser i ddysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gofynion statudol eraill. Am wybodaeth fanwl gweler Pennod 11 Y Cwricwlwm.

Pennu Targedau

22. Gan ymgynghori â'r pennaeth, rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn cynnwys ysgolion arbennig, bennu a chyhoeddi targedau ar gyfer perfformiad eu disgyblion yn asesiadau Cyfnod Allweddol 2 a 3 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a pherfformiad disgyblion 15 oed mewn arholiadau cyhoeddus, fel y bo'n briodol. Nid oes unrhyw ofynion statudol o ran pennu targedau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1.

23. Rhaid i'r corff llywodraethu gyhoeddi manylion ei dargedau yn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu (gweler Pennod 6, Darparu Gwybodaeth).

24. Rhaid cyhoeddi canlyniadau'r ysgol ar gyfer y blynyddoedd ysgol perthnasol ochr yn ochr â'r targedau lle y bo'n addas; dylid cynnwys sylwadau cryno ar y perfformiad o gymharu â'r targedau hefyd.

Ymweld â'r Ysgol

25. Nid oes gan lywodraethwyr unigol yr hawl awtomatig i fynd i mewn i'r ysgol pryd bynnag y mynnant. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai llywodraethwyr ymweld â'r ysgol o dro i dro er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ysgol. Mae'r ymweliadau hyn yn eu galluogi i gyflawni'n well eu cyfrifoldeb statudol dros gynnal yr ysgol. Dylai llywodraethwyr drefnu eu hymweliadau gyda'r pennaeth, sy'n gyfrifol am reoli a chynnal yr ysgol o ddydd i ddydd.

26. Byddai'n ddefnyddiol i gorff llywodraethu gytuno ar bolisi ar ymweliadau llywodraethwyr a fyddai'n rhoi sylw i faterion fel rhoi rhybudd o ymweliad a chynnal sesiynau adborth.

27. Mae Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Abertawe, wedi datblygu protocol drafft ar gyfer ymweliadau llywodraethwyr. Mae copïau ar gael o'r Ganolfan yn http://www.llywodraethwyrcymru.org.uk/publications/2008/10/08/publications/2008/10/08/protocol-governor-visits.

Cysylltiadau

28. Mae ysgolion a chyrff llywodraethu yn bodoli fel rhan annatod o'r gymuned ehangach. Mae gan gyrff llywodraethu gysylltiadau pwysig â'r ALl, y pennaeth, y staff a'r disgyblion ac ysgolion eraill, yn ogystal â'r Awdurdod Esgobaethol yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae meithrin a chryfhau'r cysylltiadau hyn yn rhan bwysig iawn o wneud ysgolion yn fwy effeithiol.

29. Mae llywodraethwyr ysgol yn gyfrifol am fod â throsolwg strategol o berfformiad yr ysgol. Swyddogaeth y corff llywodraethu yw cynllunio a monitro cynnydd tuag at wella ansawdd yr addysg a ddarperir a safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Golyga hyn fod cyrff llywodraethu'n cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau eu bod yn nodi amrywiadau o ran safonau yn eu hysgolion ac i gymharu ag ysgolion eraill. Rhaid iddynt ddeall y rhesymau am unrhyw wahaniaethau a herio'r pennaeth.

30. Mae Llywodraeth y Cynulliad am i ysgolion a'u cyrff llywodraethu weithio'n agosach â'i gilydd a'u bod nhw, ALlau a Llywodraeth y Cynulliad yn rhannu arfer gorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn gwneud hyn. Drwy weithio yn y modd hwn, bydd dulliau cydweithio a rhannu arferion yn gwella ledled y gymuned addysg gyfan. Mae hefyd yn golygu y bydd penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr o'r cychwyn cyntaf yn llunio polisïau a mentrau rhaglenni newydd, yn hytrach na'u bod yn cael eu gorfodi arnynt. Y bwriad yw y bydd gweithio yn y modd hwn yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer pob dysgwr, ym mhob lleoliad dysgu.

31. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith ar wefan Llywodraeth y Cynulliad: www.cymru.gov.uk.

Perthynas â'r Pennaeth

32. Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu, yn enwedig y cadeirydd, gydweithio'n agos. Dylai'r naill werthfawrogi gwybodaeth a chyfraniad y llall. Pennir swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu a phenaethiaid yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000, fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 18, uchod.

33. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefnidiaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol ac am roi'r fframwaith strategol a bennir gan y llywodraethwyr ar waith. Ni ddylai llywodraethwyr ymgymryd â manylion rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Dylai'r pennaeth drafod holl brif agweddau bywyd yr ysgol gyda'r corff llywodraethu a disgwyl i'r corff llywodraethu ofyn cwestiynau, ei herio ar rai materion a'i ddal ef neu hi yn atebol, er lles yr ysgol.

34. Er mwyn meithrin perthynas dda, dylai'r corff llywodraethu weithredu fel "ffrind beirniadol" y pennaeth. Golyga hyn y dylai'r corff llywodraethu gynnig cymorth a chyngor adeiladol, ond ni ddylid rhwystro llywodraethwyr rhag cwestiynu cynigion a gofyn am wybodaeth bellach i'w galluogi i wneud penderfyniadau cadarn.

35. Er mwyn helpu'r corff llywodraethu i gyflawni'i swyddogaethau, mae dyletswydd ar y pennaeth i ddarparu adroddiadau i'r corff llywodraethu sy'n gysylltiedig â chyflawni'i swyddogaethau yn unol â gofynion y corff llywodraethu. Dylai'r pennaeth ddarparu digon o wybodaeth, gan gynnwys egluro a chyfiawnhau cynigion a gweithredoedd, er mwyn rhoi hyder i'r corff llywodraethu ei fod ef a'r pennaeth yn cyflawni'u cyfrifoldebau statudol.

36. Bydd corff llywodraethu da yn dirprwyo digon o bwerau fel y gall y pennaeth gyflawni'i ddyletswyddau rheoli yn y modd mwyaf effeithlon posibl. Rhaid i'r pennaeth adrodd i'r corff llywodraethu'n rheolaidd ar sut y gweithredwyd y pwerau dirprwyedig hynny a dylai'r corff llywodraethu adolygu'r gweithredoedd a ddirprwywyd yn rheolaidd.

37. Mae'r pennaeth hefyd yn atebol i'r corff llywodraethu – am y swyddogaethau a gyflawnir fel rhan o swyddogaeth arferol y pennaeth ac am y pwerau a ddirprwyir gan y corff llywodraethu. Unwaith eto, ceir cyngor defnyddiol yn y cylchlythyr cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 18, uchod.

38. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ystyried dymuniad penaethiaid i sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith. Felly, rhaid i lywodraethwyr ddeall natur llwyth gwaith pennaeth a galwadau'r swydd. Dylai hynny fod yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir uchod a dylid ei adlewyrchu ym mherthynas waith y cadeirydd a'r pennaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhennod 10 "Staffio".

Perthynas â'r Awdurdod Lleol (ALl)

39. Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am yr ysgol. Yr ALl sy'n 'cynnal' ysgolion, sy'n golygu ei fod am wybod bod ysgolion yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda a bod darpariaeth ysgolion yn ardal yr awdurdod yn effeithiol ac effeithlon. Dylai'r ALl gynorthwyo ymdrechion y corff llywodraethu i wella'r ysgol drwy ddarparu cyngor, adnoddau a heriau.

40. Yn gyffredinol, bydd ALlau'n rhoi sylw arbennig i ysgol sy'n peri pryder, neu i gorff llywodraethu sy'n gweithredu mewn modd a all fod yn niweidiol i ysgol. Os digwydd hyn, rhaid i'r ALl hysbysu'r corff llywodraethu a'r pennaeth am ei bryderon. Dylai'r ALl hefyd roi gwybod i unrhyw randdeiliaid eraill am eu pryderon, er enghraifft yr esgobaeth neu'r sefydliad. Er mwyn gwella'r sefyllfa dylai'r ALl gynnig cymorth priodol i'r ysgol. Gall ALl ymyrryd gan ddefnyddio'i bwerau deddfwriaethol os tybir bod angen gwneud hyn. Am wybodaeth fanwl am y materion hyn ewch i Bennod 24 o'r Canllaw hwn, o dan y teitl Ysgolion sy'n Peri Pryder a Byrddau Gweithredol Dros Dro.

41. Manylir ar y berthynas rhwng awdurdod ac ysgol mewn cytundeb partneriaeth. Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 OS 2007/3066 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu ac ALlau am bob ysgol a gynhelir ganddynt, ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion. Rhaid i ALlau lunio cytundeb partneriaeth unigol gyda phob corff llywodraethu.

42. Cynhyrchwyd Cylchlythyr Cyfarwyddyd gan Lywodraeth y Cynulliad, rhif 016/2008 o dan y teitl 'Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth)(Cymru) 2007 - Canllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion'. Mae'r canllawiau'n manylu ar y wybodaeth i'w chynnwys mewn cytundeb neu ddatganiad partneriaeth, fel a ganlyn:

- y swyddogaethau statudol i'w cynnwys;
- swyddogaethau nad ydynt yn rhai statudol y gellid eu cynnwys; a
- lefel y manylder sy'n angenrheidiol.

43. Diffinnir cytundeb partneriaeth yn y Rheoliadau fel cytundeb ynglŷn â sut y bydd ALl a chorff llywodraethu ysgol yn mynd ati i gyflawni'u swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol. Rhagwelir y caiff y rhan fwyaf o gytundebau eu llunio ar y cyd ond, lle na all ALl ddod i gytundeb gyda chorff llywodraethu, gall lunio datganiad yn nodi sut y bydd yr ALl a'r corff llywodraethu yn cyflawni'u swyddogaethau.

Perthynas â Disgyblion – Rhoi Cyfle i Blant a Phobl Ifanc Ddweud eu Dweud

44. Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar ALlau a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, wrth gyflawni'u swyddogaethau, i ystyried unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn ag ymgynghori â disgyblion pan wneir penderfyniadau ar bethau a fydd yn effeithio arnynt.

45. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn pennu'r gofynion er mwyn i bob ysgol a gynhelir (ac eithrio ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol

fabanod a gynhelir) sefydlu cyngor ysgol i weithredu fel corff cynrychiolwyr ar ran pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol, gyda'r nod o roi cyfle i'r disgyblion drafod a rhoi eu sylwadau ar unrhyw fater sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cynnal cynghorau ysgol yn iawn, gan gynnwys etholiadau pleidlais gyfrinachol ac y dylid cynnal cyfarfod cyngor ysgol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad gylchlythyr ym mis Hydref 2006 rhif 42/2006 o dan y teitl Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol.

46. Rhaid i gorff llywodraethu a phennaeth yr ysgol ystyried unrhyw fater y mae cyngor yr ysgol yn tynnu sylw ato a darparu ymateb i gyngor yr ysgol.

47. Dylai cyrff llywodraethu ystyried pa mor effeithiol yw cyngor yr ysgol o safbwynt amrywiaeth y materion a ystyrir; cyfathrebu ymhlith y cyngor, y disgyblion, y corff llywodraethu a'r pennaeth; ac adnoddau. Argymhellir i'r corff llywodraethu benodi llywodraethwr cyswllt er mwyn cydgysylltu â chyngor yr ysgol.

48. Rhaid i ysgolion yng Nghymru sicrhau bod cyfle i gyngor yr ysgol enwebu hyd at ddau ddisgybl o flwyddyn 11, 12 a/neu 13 i fod yn aelodau ac i weithredu fel disgybl-lywodraethwyr cyswllt ar gorff llywodraethu'r ysgol.

Perthynas â'r Gymuned Ehangach

49. Rhoddodd Deddf Plant 2004 ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i gydweithio er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i meithrin mewn 22 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc statudol.

50. Mae Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd gan Adran 38 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, yn nodi bod rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ystyried eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol. Trwy wneud hyn, dylai llywodraethwyr ystyried i ba raddau mae ysgolion yn cyfrannu at gynllunio strategol ac yn adolygu'u Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol. Dylid hefyd ystyried i ba raddau mae eu cynllun datblygu ysgol yn cyfrannu at y gwaith o weithredu'r blaenoriaethau strategol a bennwyd yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac i ba raddau mae mesurau canlyniadau cyffredinol y Cynllun yn adlewyrchu canlyniadau yn yr ysgol i blant a phobl ifanc. Am wybodaeth bellach gweler Pennod 6, Darparu Gwybodaeth, hefyd.

51. Mae ysgolion yn gwneud cyfraniad pwysig a chanolog i'w cymunedau. Mae ysgolion nid yn unig yn darparu addysg i ddisgyblion ac yn creu ymdeimlad o gymuned ymhlith y rhieni, ond gallant hefyd gynnig cyfle, a chyfleusterau'n aml, er budd i'r gymuned gyfan. Mae cyrff llywodraethu yn rheoli pwy all ddefnyddio adeiladau a safle'r ysgol y tu allan i oriau ysgol yn amodol ar y cyfyngiadau y cyfeirir atynt ym Mhennod 26 o dan y teitl Rheoli Safleoedd Ysgolion a'r Defnydd Cymunedol Ohonynt.

52. Yr ysgolion, gan ymgynghori â'u partneriaid, sy'n gyfrifol am ddatblygu cymaint o ddarpariaeth ag y credant sy'n addas i'w cymuned, cyn belled nad yw'n ymyrryd ar eu prif ddyletswydd i addysgu disgyblion neu i hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol.

53. Mae ysgol fro yn un sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau amrywiol, y tu hwnt i'r diwrnod ysgol yn aml, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 26, Rheoli Safleoedd Ysgolion a'r Defnydd Cymunedol Ohonynt, a Phennod 27, Ysgolion Bro.

Cwynion

54. Weithiau gall rhiant, aelod staff, disgybl neu rywun yn y gymuned fynegi pryder neu gwyno. Rhaid i bob corff llywodraethu fod â gweithdrefnau i ymdrin â chwynion, a'u cyhoeddi. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau ar weithdrefnau cwyno. Ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn mae'r rhain wrthi'n cael eu hystyried, a disgwylir i gylchlythyr cyfarwyddyd a pholisi enghreifftiol gael eu cyhoeddi yn 2009.

55. Ceir gwybodaeth am ymdrin â chwynion ym Mhennod 12, o dan y teitl Cwynion a Chwythu'r Chwiban.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 1996
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Adran 48 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002)
Deddf Addysg 2002
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Addysg a Sgiliau 2008 Rhan 5
Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 OS 2007/3066
Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000), ac a disodlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005), ac a ddisodlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007, ac a ddisodlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006) ac a ddisodlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Diwygio) 2003:
OS 2003/1626 yn gweithredu Cyfarwyddeb Hil 2000/43EC, ac a ddisodlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/1811) fel y'u diwygiwyd. *(Ymgynghorir ar y diwygiadau i'r Rheoliadau a'r canllawiau ategol yn 2009)*

Canllawiau

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/2000
Dogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol - (cyhoeddir yn flynyddol)
Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) – Canllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion
Protocol ar gyfer Ymweliadau gan Lywodraethwyr
http://www.llywodraethwyrcymru.org.uk/publications/2008/10/08/protocol-governor-visits
Pennu targedau - Canllaw ar gyfer penaethiaid a chyrff llywodraethu.

Cynllun Penderfynu i Gyrff Llywodraethu

Allwedd

Lefel 1 = y corff llywodraethu sy'n penderfynu
Lefel 2 = y corff llywodraethu sy'n penderfynu gyda chyngor y pennaeth
Lefel 3 = dirprwyo penderfyniadau i'r pennaeth
Lefel 4 = y pennaeth sy'n penderfynu

Croes: Ni ellir cyflawni'r swyddogaeth yn gyfreithiol ar y lefel hon.
Tic: Y lefel(au) a argymhellir neu lle y mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol penodol.
Bwlch: Gallai'r corff llywodraethu benderfynu cyflawni'r weithred ar y lefel hon, ond ni argymellir hyn fel rheol.

* Rhaid i'r corff llywodraethu cyfan ystyried y swyddogaethau hyn
** Rhaid i bob ysgol sicrhau bod ei threfniadau ariannol yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol, y rheolau sefydlog a'r cynlluniau dirprwyo cyfredol a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol.
*** Gallai cyrff llywodraethu ddewis bod yn rhan o banel dethol.

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
Ysgol	1	Cymeradwyo'r gyllideb ffurfiol gyntaf bob blwyddyn ariannol *		✓	X	X
**Cyllidebau ** **	2	Monitro gwariant misol			✓	
	3	Penderfyniadau ariannol amrywiol (e.e. dileu dyled)		✓	✓	
	4	Ymchwilio i anghysondebau ariannol (pennaeth dan amheuaeth)	✓	X	X	X
	5	Ymchwilio i anghysondebau (rhywun arall dan amheuaeth)		✓	✓	
	6	Ymrwymo i gontractau (uwchlaw'r terfyn ariannol penodedig)		✓		
	7	Ymrwymo i gontractau (islaw'r terfyn ariannol penodedig)			✓	
	8	Gwneud taliadau		✓	✓	

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	9	Darparu yswiriant – pan fo arian wedi'i ddirprwyo		✓		X
Staffio	10	Penodi pennaeth (panel dethol) *	✓	X	X	X
	11	Penodi dirprwy (panel dethol) *	X	✓	X	X
	12	Penodi athrawon eraill ***		✓	✓	X
	13	Penodi staff nad ydynt yn addysgu ***		✓	✓	X
	14	Taliadau dewisol (ni ddylai'r pennaeth gynghori ar ei gyflog ei hun)		✓		X
	15	Diswyddo (pennaeth) DS: rhaid i'r corff llywodraethu weithredu drwy Bwyllgor Diswyddo *	✓	X	X	X
	16	Diswyddo (aelod staff arall) DS: rhaid i'r corff llywodraethu weithredu drwy Bwyllgor Diswyddo	X	✓	X	X
	17	Pennu gweithdrefnau disgyblu/gallu		✓		X
	18	Gwahardd pennaeth dros dro	✓	X	X	X
	19	Gwahardd staff dros dro (ac eithrio pennaeth)		✓		✓
	20	Dod â gwaharddiad dros dro i ben (pennaeth)	✓	X	X	X
	21	Dod â gwaharddiad dros dro i ben (ac eithrio pennaeth)		✓	X	X
	22	Penderfynu ar daliadau diswyddo/ymddeoliad cynnar		✓	X	X
	23	Pennu nifer staff		✓		

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	24	Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, penderfynu a ddylid rhoi hawliau cynghori i'r Prif Swyddog Addysg/awdurdod esgobaethol. Yn achos ysgolion gwirfoddol a reolir, penderfynu a ddylid rhoi hawliau cynghori i'r awdurdod esgobaethol wrth benodi staff		✓	X	X
Cwricwlwm	25	Sicrhau yr addysgir y Cwricwlwm Cenedlaethol i bob disgybl ac ystyried datgymhwyso disgybl(ion)		✓		✓
	26	Creu polisi cwricwlwm drafft			✓	
	27	Rhoi polisi cwricwlwm ar waith				✓
	28	Cytuno ar y polisi cwricwlwm a'i adolygu		✓	X	X
	29	Bod yn gyfrifol am safonau addysgu				✓
	30	Penderfynu pa opsiynau pynciau y dylid eu haddysgu, gan ystyried adnoddau, a sefydlu cwricwlwm hyblyg (gan gynnwys gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol)				✓
	31	Bod yn gyfrifol am addysg plentyn unigol				✓
	32	Darparu addysg rhyw – creu a diweddaru polisi ysgrifenedig *		✓	X	X

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	33	Gwahardd cyflyru gwleidyddol a sicrhau y caiff materion gwleidyddol eu trin yn gytbwys *		✓		✓
	34	Llunio polisi codi tâl a pheidio â chodi tâl ar gyfer gweithgareddau (nad ydynt yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol) gan ymgynghori â'r ALl *		✓		✓
Pennu targedau	35	Pennu a chyhoeddi targedau ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion *		✓	X	X
Gwaharddiadau	36	Penderfynu ar bolisi disgyblu *		✓	X	X
	37	Gwahardd disgybl am dymor penodol (llai na chyfanswm o 45 diwrnod mewn blwyddyn) neu'n barhaol	X	X	X	✓
	38	Ystyried achosion penodol o wahardd ac unrhyw sylwadau (rhaid ystyried unrhyw ddisgybl sy'n cael ei wahardd yn barhaol neu am dros 5 diwrnod) DS: rhaid i'r corff llywodraethu weithredu drwy bwyllgor disgyblu disgyblion		✓	X	X
	39	Rheoli'r broses o dderbyn disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn ôl	✓	X	X	X

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
Derbyn disgyblion	40	Pennu polisi derbyn (mewn ysgolion cymunedol ac a reolir lle mae'r ALl wedi dirprwyo'r awdurdod hwn i'r corff llywodraethu) *		✓	X	X
	41	Pennu polisi derbyn (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a sefydledig) *		✓	X	X
	42	Pennu polisi derbyn (ysgolion arbennig lle nad oes datganiad gan ddisgyblion) gan weithredu gyda'r ALl *		✓	X	X
	43	Derbyn disgyblion: penderfynu ar geisiadau (ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir lle mae'r ALl wedi dirprwyo'r awdurdod hwn i'r corff llywodraethu) -		✓	X	X
	44	Derbyn disgyblion: penderfynu ar geisiadau (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig ac arbennig)		✓	X	X
	45	Apelio yn erbyn cyfarwyddyd yr ALl i dderbyn disgybl(ion) (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig ac arbennig; hefyd ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir â'r ALl yn awdurdod derbyn)		✓	X	X
Addysg Grefyddol	46	Cyfrifoldeb am sicrhau y darperir AG yn unol â chwricwlwm sylfaenol yr ysgol (pob ysgol)		✓	X	✓

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	47	Penderfynu darparu AG yn unol â gweithred ymddiriedolaeth/enwad penodol (ysgolion sefydledig ac a reolir sydd â chymeriad crefyddol ar gais rhieni)	✓			
	48	Penderfynu darparu AG yn unol â'r maes llafur a gytunir arno'n lleol		✓		
Addoli ar y cyd	49	Bod yn gydgyfrifol (gyda'r ALl a'r pennaeth) am sicrhau yr addolir ar y cyd		✓	X	✓
	50	Cyflwyno ceisiadau i'r cynghorau ymgynghorol, CYSAG, i beidio gorfod cydymffurfio â gofynion addoli ar y cyd (ysgolion heb gymeriad crefyddol). Rhaid i'r pennaeth ymgynghori â'r corff llywodraethu.	X	X	X	✓
	51	Trefniadau addoli ar y cyd (ysgolion heb gymeriad crefyddol). Rhaid i'r pennaeth ymgynghori â'r corff llywodraethu.	X	X	X	✓
	52	Trefniadau addoli ar y cyd (ysgolion sefydledig â chymeriad crefyddol, ysgolion gwirfoddol a reolir neu a gynorthwyir) *	X	✓	X	X
Safle'r ysgol	53	Yswiriant Adeiladau – cyngor gan yr ALl, yr esgobaeth neu'r ymddiriedolwyr lle'n briodol		✓		

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	54	Strategaeth (gan gynnwys cyllidebu ar gyfer gwaith atgyweirio ac ati)		✓		
	55	Sicrhau y bodlonir gofynion iechyd a diogelwch		✓		✓
	56	Pennu polisi codi tâl a pheidio â chodi tâl *		✓	X	X
Trefniant yr Ysgol	57	Cynnig i addasu neu gau ysgol wirfoddol, sefydledig neu sefydledig arbennig *		✓	X	X
	58	Pennu amseroedd sesiynau'r ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgol (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) *		✓	X	X
	59	Llunio offeryn llywodraethu ac unrhyw ddiwygiadau wedi hynny *	✓		X	X
	60	Cyhoeddi cynigion i newid categori'r ysgol *		✓	X	X
Gwybodaeth i rieni	61	Cynnal Cyfarfod Rhieni Blynyddol		✓	X	X
	62	Adroddiad Blynyddol i Rieni – ei gymeradwyo a'i ddosbarthu		✓	X	X
	63	Darparu gwybodaeth i'w chyhoeddi gan gyrff llywodraethu (cymeradwyo prosbectws yr ysgol) *		✓	X	X
	64	Sicrhau y darperir prydau ysgol am ddim i'r disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf			✓	X

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
	65	Mabwysiadu ac adolygu cytundebau ysgol gartref		✓	X	X
Gweithdrefnau'r Corff Llywodraethu	66	Penodi (a diswyddo) cadeirydd ac is-gadeirydd corff llywodraethu parhaol neu dros dro *	✓	X	X	X
	67	Penodi a diswyddo clerc y llywodraethwyr	✓	X	X	X
	68	Cynnal cyfarfod y corff llywodraethu unwaith bob tymor, neu gyfarfod y corff llywodraethu dros dro pan fo angen *	✓		X	X
	69	Penodi a diswyddo llywodraethwyr sy'n cynrychioli'r gymuned, gan gynnwys llywodraethwyr ychwanegol dros dro sy'n cynrychioli'r gymuned *	✓		X	X
	70	Ystyried a oes angen dirprwyo swyddogaethau i unigolion neu bwyllgorau *	✓		X	X
	71	Rheoleiddio gweithdrefnau'r corff llywodraethu (nad ydynt wedi'u pennu gan y gyfraith) *	✓		X	X
	72	Adolygu'r broses o sefydlu pwyllgorau, eu cylch gorchwyl a'u haelodau, gan gynnwys paneli dethol, o leiaf unwaith y flwyddyn *	✓		X	X
	73	Sefydlu Cofrestr Buddiannau Busnes Llywodraethwyr		✓	X	X
	74	Cymeradwyo a sefydlu cynllun treuliau		✓	X	X

		Taflen Weithredu	Lefel y Penderfyniad			
Swyddogaeth Allweddol	**Rhif**	**Tasgau**	LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3	LEFEL 4
		llywodraethwyr				
	75	Cyflawni dyletswyddau yn ymwneud â disgyblion ag anghenion arbennig drwy benodi "person cyfrifol"		✓	X	X